

**Ailgylchu dros  
gyfnod y Nadolig!**  
Ewch i **Tudalen 3**  
am wybodaeth

**Hwb cyllid mawr  
ar gyfer prosiectau Adfywio**



merthyrtydfilCBC



@MerthyrCBC



[www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)





## Sefyllfa Ariannol

Dros y ddegawd ddiwethaf mae nifer o Gynhorau wedi gweld toriadau parhaus yn cael eu gwneud i'n cyllidebau gan Lywodraeth Ganollog.

Mae hyn wedi ychwanegu pwysedd sylweddol ar y rhediad bob dydd o'r Cynghorau a sut mae nhw yn ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn profi yn eithriadol o anodd ac mae rhaid i Awdurdodau Lleol, gwneud newidiadau mawr i allu fod yn gynaliadwy.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, trwy'n rhaglen effeithlonrwydd, mae'r Cyngor hwn eisoes wedi gorfod canfod arbedion gwerth £32 miliwn a her ychwanegol o ganfod £15 miliwn ymhellach dros y 3 mlynedd nesaf.

Mae'r cyni ariannol wedi cael effaith ar gynaliadwydd y sefydliad a'n gallu

i ddarparu gwasanaethau ar gyfer preswylwyr y Fwrdeistref Sirol.

Nid ydym ar ein pennau'n hunain – mae pob Cyngor yn teimlo'r wasgfa

Yn ddiweddarach y mis hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn datgan ein setliad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd hyn yn rhoi darlun cliriach i ni o sefyllfa gyllidebol y Cyngor a sut y byddwn yn blaenoriaethu'n gwasanaethau wrth symud ymlaen.

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn arbennig o anodd â'r her i wneud arbedion. Mae Swyddogion ac aelodau etholedig wedi wynebu'r her hwn yn uniongyrchol ac yn gwneud datblygiadau arwyddocaol er mwyn sicrhau y bydd y Cyngor hwn yn gynaliadwy wrth symud ymlaen.

Er mwyn rhoi'r sefydliad hwn

mewn sefyllfa gref ar gyfer y dyfodol, roedd rhaid i'r Cyngor fynd drwy drawsffurfiad cynhwysfawr.

Fel rhan o'r datblygiad, gofynnwyd am gymorth gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac maent wedi darparu nifer o ymgynghorwyr allanol i'n cynorthwyo i yrru'r newidiadau gofynnol a'r gwelliannau yn eu blaen.

Bydd y cymorth hwn gan LIC ar ffurf Bwrdd a fydd yn gweithio'n agos â'r Cyngor, i sicrhau gyda cyllid cyfyngedig bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon er mwyn symud ymlaen.

Mae hi yn bwysig i gadw chi ein preswylwyr gyda diweddariad cyson gan ymgysylltu a chi trwy gydol hyn. Am diweddariad pellach ewch i wefan y Cyngor ar [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk) neu i wefannau cymdeithasol Facebook a Twitter.

## Maer Ieuenctid 2019-2020

Ym mis Hydref, etholodd Merthyr Tudful ei Ddirprwy Faer Ieuenctid ar gyfer 2020/2021. Pleidleisiodd holl ysgolion y fwrdeistref, gan gynnwys disgyblion sy'n mynychu Ysgol Rhydywaun ar gyfer eu Dirprwy Faer Ieuenctid nesaf. Pleidleisiodd dros 300 o bobl ifanc; dyma'r nifer uchaf o bleidleiswyr ers i'r fenter Maer Ieuenctid gael ei lansio. Cafodd Samee Furreed ei ethol fel Dirprwy Faer Ieuenctid ac mae'n bwriadu parhau i weithio â Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful ar gyfer y Fwrdeistref Gyfan ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl gan gynorthwyo i hybu iechyd meddwl cadarnhaol ymhlith pobl ifanc Merthyr Tudful. Mae Samee hefyd yn bwriadu ymdrin â throseddau casineb/bwlio a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Mae Samee yn 14 mlwydd oed ac yn mynychu Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ac mae ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer ei arholiadau TGAU.

Mae eleni yn nodi/dathlu 10 mlynedd o'r Maer Ieuenctid a Krystian Maciejczyk yw 10fed Faer Ieuenctid Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Cafodd Krystian ei ethol fel y Maer Ieuenctid fis Mai diwethaf a bydd yn ei swydd hyd Ebrill 2020. Mae am geisio newid canfyddiadau ynghylch mewnfudiad, codi ymwybyddiaeth o fasnachu pobl ac ymdrin â phroblem ddigartrefedd ym Merthyr Tudful. Ynghyd â'r 3 addewid hwn, mae'r Maer Ieuenctid wedi enwebu'r Donation Station fel yr elusen y bydd yn codi arian ar ei chyfer yn ystod ei dymor yn y swydd.

Y Dirprwy Faer Ieuenctid ar gyfer 2019/2020 yw Andrew Millar, sy'n 13 mlwydd oed ac sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Cyfarthfa. Mae Andrew yn frwd i gyflwyno sgiliau bywyd i ysgolion ac yn edrych ymlaen at ei flwyddyn fel Dirprwy Faer Ieuenctid a fydd yn dechrau ym Mai 2020.

Trwy gydol blwyddyn Krystian fel Maer Ieuenctid, mae wedi cyfranogi mewn nifer o ddigwyddiadau lleol gan fynychu gwasanaethau Sul y Cofio ym Merthyr Tudful, ar y cyd ag Ei Deilyngdod y Maer. Mae, yn ogystal wedi cyd-gyflwyno Academi Llwyddiant Merthyr sy'n dathlu cyflawniadau gwyb pobl ifanc Merthyr Tudful.

Yn ystod yr haf, bu Krystian yn ymweld â nifer o'r darpariaethau lleol ar gyfer yr ifanc ym Merthyr er mwyn gweld peth o'r gwaith gwyb sy'n cael ei wneud yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc. Yn mis Medi 2019, bu Krystian hefyd yn mynychu nifer o Ysgolion Merthyr Tudful yn y fwrdeistref gan dderbyn cymorth gan y Dirprwy Faer Ieuenctid a Chadeirydd Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful ar gyfer y Fwrdeistref Gyfan er mwyn hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Fforwm a recriwtio mwy o bobl ifanc i ymuno.

Mae Krystian hefyd wedi arwain prosiect ar iechyd meddwl ar gyfer plant ysgolion cynradd ac wedi derbyn cefnogaeth gan aelodau Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful ar gyfer y Fwrdeistref Gyfan. Nod y prosiect 'Teimlo'n Dda,' oedd tynnu sylw at ymyriadau cynnar a chynorthwyo pobl ifanc i ddeall pwysigrwydd bod yn hapus ac os nad ydynt, beth ellir ei wneud am hynny. Gweithiodd y Fforwm Ieuenctid ag Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa ac Ysgol Gynradd Santes Tudful er mwyn creu pecyn gweithgareddau a chân. Mae'r adnoddau wedi cael eu dosbarthu i bob ysgol ym Merthyr Tudful a byddant yn cael eu defnyddio i gefnogi lles meddwl, cadarnhaol.

Ar hyn o bryd mae Fforwm Ieuenctid Merthyr Tudful ar gyfer y Fwrdeistref Gyfan yn gweithio â'r Bwrdd Diogelu er mwyn creu ffilm wedi ei animeiddio a fydd yn codi ymwybyddiaeth o drais plant/yr arddegau a cham-drin i rieni a gofawlyr.



Maer Ieuenctid a Dirprwy Faer Ieuenctid eleni

## Gardd Goffa yn ennill Gwobr Cymru yn ei Blodau

Roedd gwirfoddolwyr yng Ngardd Goffa Holocaust Llyfrgelloedd Merthyr wrth eu bodau wedi i'w hymdrechion gael eu cydnabod yng Nghystadlaethau Cymru yn ei Blodau eleni.

Derbyniodd yr ardd Goffa ddyfarniad Lefel 5, 'Rhagorol' yng nghategori Eich Cymdogaeth, elfen ranbarthol y Gystadlaethau Brydeinig a gefnogir gan y Gymdeithas Arddwriaethol Brydeinig.

"Cafodd yr ardd goffa ei sefydlu yn 2016 gan staff Llyfrgelloedd Merthyr ac ers 2018 mae grŵp o wirfoddolwyr gwyb wedi bod yn edrych ar ei hól ac wedi canfod ffynonellau ariannol er mwyn ariannu gwelliannau parhaus yn ogystal ag edrych ar ôl yr ardd o

ddydd i ddydd," dywedodd Rhianwen Long, Swyddog Cymorth i Aelodau Lles@Merthyr.

"Hoffai Llyfrgelloedd Merthyr Tudful a Lles@Merthyr ddiolch i'r gwirfoddolwyr am eu gwaith caled

parhaus yn yr ardd gan gyfeirio'n arbennig at Janet Morgan sy'n gyfrifol am drefnu'r grŵp a dod o hyd i adnoddau i wella'r ardd yn flynyddol."

Cyflwynwyd y wobwr i Janet Morgan ac Anne Yates o Lyfrgell Ganollog Merthyr gan gynrychiolwyr o'r Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol.



## Disgyblion yn ymuno yn yr ymgyrch i achub llyswennod

Mae ymgyrch i fynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer y llyswennod ar draws Ewrop wedi sbarduno disgyblion o Ysgolion Cynradd Trelewis a Bedlinog i 'ail-ymgysylltu' â'u hafon leol; sef Taf Bargoed.

Fel rhan o Brosiect Dalgylch Taf Bargoed, edrychodd disgyblion o'r ddwy ysgol ar ôl llyswennod a llyswod ifanc am 12 wythnos er mwyn eu paratoi i gael eu rhyddhau i Afon Taf Bargoed fel rhan o gynllun ailstocio.

Mae'r 20 mlynedd ddiwethaf wedi gweld gostyngiad dramatig yn niferoedd y llyswennod sy'n cyrraedd systemau afonydd Ewrop - yn ôl rhai amcangyfrifon, cafwyd gostyngiad i 1% o'i gymharu â'r lefelau blaenorol ond ni ellir esbonio pam fod hyn yn digwydd.

Mae llyswennod yn deor o wyau yn y Sargasso, rhan ddofn iawn o Gefnfor yr Iwerydd. Gan ddefnyddio Llif y Gwlff, maent yna'n mudo 3,000 o filltiroedd ar draws yr Iwerydd tuag at arfordir gorllewin Ewrop. Maent yna'n casglu mewn aberoedd fel llyswennod gwydr cyn iddynt drawsffurfio'n llyswod a symud gyda'r afon.

Edrychodd disgyblion Trelewis a Bedlinog ar ôl y llyswod gan ddysgu am eu cylch bywyd diddorol drwy gyfres o weithdai addysgiadol a drefnwyd gan Gareth Edge, Swyddog Prosiect ar gyfer Cynllun Dalgylch Taf Bargoed.

"Gobeithiwn y bydd y prosiect yn cynorthwyo pobl leol i sylweddoli pwysigrwydd afonydd lleol gan gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o'r rhywogaeth ddigol hon," dywedodd.

Ariannir Prosiect Dalgylch Taf Bargoed gan Weithredu Gwledig Cwm Taf trwy

Raglen Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n cael ei reoli gan Ymddiriedolaeth Afonydd De Ddwyrain Cymru.

Mae Gweithredu Gwledig Cwm Taf yn gweithio yn wardiau gwledig Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf: Bedlinog, y Faenor, Cyfarthfa, Plymouth, Treharris, Ynys Owen, Rhigos ac Ynysybwll. Nod y rhaglen yw:

- Arallgyfeirio'r economi leol
- Gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau gwledig
- Ymgysylltu â chymunedau ar lawr gwlad ac
- Annog ffyrdd dyfeisgar, newydd i gynnal datblygiad gwledig.

Er mwyn cael gwybod rhagor am sut allwch chi neu'ch cymuned fanteisio ar y cynllun, ffoniwch 01685 725467 neu ewch i [Ruralaction@merthyr.gov.uk](mailto:Ruralaction@merthyr.gov.uk) <<mailto:Ruralaction@merthyr.gov.uk>>.



### Mae ein hymgyngoriad cyllideb blynyddol ar y gweill

Dweud eich dweud ar sut rydych chi'n meddwl y dylai'r Cyngor flaenoriaethu ei wasanaethau. Mae'r arolwg ar gael ar-lein [smartsurvey.co.uk/s/BudgetConsultation20-21/](http://smartsurvey.co.uk/s/BudgetConsultation20-21/) neu mae copïau papur ar gael yn y Ganolfan Ddinesig







## AILGYLCHU DROS GYFNOD Y NADOLIG

Mae gan y mwyafrif ohonom ragor o wastraff na'r arfer dros gyfnod y Nadolig, felly edrychwch ar ôl yr amgylchedd ac ailgylchwch y Nadolig hwn!

### GWASANAETH AILGYLCHU YMYL Y STRYD

Gwydr – Gellir ailgylchu gwydr drosodd a throsodd a gellir ei ailgylchu yn y cynllun ailgylchu wythnosol.

Peidiwch â rhoi gwydr wedi torri yn y blwch ailgylch.

Caniau bwyd a diod metal – dylid eu golchi a'u rhoi yn y bag glas

Poteli plastig, tybiau, potiau a chynwysyddion - dylid eu golchi a'u rhoi yn y bag glas

Ffoil alwminiwm glân – os nad oes bwyd arno, dylid ei wasgu'n belen fach a'i ailgylchu yn eich bag glas

Papur a chylchgronau - Gosodwch hwy ar wahân i ddeunyddiau eraill. Gellir rhoi papur wedi'i falu mewn bag siopa i atal gollyngiadau

Cardfwrdd - dylid eu torri'n ddarnau llai na'r blwch ailgylchu, eu gwastatáu ac yn rhydd o bolystyren neu becynnu cyn eu rhoi allan i'w gasglu

### Cyngor da!

Ceisiwch osgoi papur lapio'n llwyr a rhewch anrhegion mewn bagiau papur y gellir eu hail ddefnyddio.

### PAPUR LAPIO

Nid oes modd ailgylchu papur lapio confensiynol gan ei fod yn cynnwys gliter a rhubanau. Ceisiwch ddefnyddio bag anrheg yn ei le – gellir eu hailddefnyddio drosodd a throsodd!

Os oes gennych unrhyw bapur lapio na ellir ei ailgylchu, ewch ag ef i ganolfan ailgylchu a gwastraff y cartref.

Ni fydd bagiau ychwanegol o bapur lapio yn cael eu casglu o ymyl y palmant eleni. Rhaid ei rhoi yn y bin du neu fynd ag ef i'r ganolfan gwastraff ac ailgylchu'r cartref.

### COED NADOLIG / GWASTRAFF GARD

Byddwn yn casglu coed Nadolig go iawn ar gais yn unig.

Gwneir casgliad o'r Cwm uchaf ar dydd Mercher 8fed o Ionawr 2020 ac o'r Cwm isaf ar dydd Iau 9fed o Ionawr 2020. Ffoniwch 01685 726264 i drefnu casgliad cyn y dyddiau uchod.

Gellir hefyd mynd â choed go iawn a gwastraff gardd i ganolfannau gwastraff tai ac ailgylchu.

### GWASTRAFF BWYD

Gall pob math o fwydydd sydd wedi eu coginio neu sydd heb eu coginio cael eu gosod yn y bagiau compost a'u rhoi yn eich bin gwastraff bwyd. Mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu'n wythnosol.

### EITEMAU TRYDANOL

Mae eitemau trydanol yn niweidiol i'r amgylchedd ac ni ddylid eu gosod yn y biniau olwynion gan fod angen iddynt gael eu torri a'u dyddodi'n gywir

Mae'r Cyngor yn casglu eitemau trydanol bychan ar ymyl y ffordd a gellir mynd ag eitemau mwy o faint i safleoedd y Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref. Gallwch dalu i archebu casgliad eitem mwy o faint drwy'r gwefan.

### CARDIAU NADOLIG

Mae'r Cyngor yn cynnal cystadleuaeth ailgylchu cardiau Nadolig ag ysgolion lleol. Gwiriwch os yw'ch ysgol yn rhan o'r cynllun a rhewch unrhyw gardiau iddynt er mwyn sicrhau fod gan yr ysgol bob cyfle i ennill y gystadleuaeth eleni! Gallech hefyd anfon E-gardiau neu gyfrannu'r arian y byddech fel arfer yn ei wario ar gardiau i elusen.

Ni ddylech gosod cardiau Nadolig gyda'ch ailgylchu cardbord, gan nad oes modd ailgylchu'r glitter, rhubanau a'r deunyddiau eraill sydd ynddynt.

### CANOLFANNAU AILGYLCHU A GWASTRAFF Y CARTREF (CANOLFAN)

Gallwch fynd â'ch gwastraff a'ch ailgylchu i'ch Canolfan agosaf:

- Canolfan Ailgylchu a Gwastraff y Cartref Aberfan, Ffordd Aberfan, Aberfan
- Canolfan Ailgylchu a Gwastraff y Cartref Dowlais, Y Bont, Hen Ffordd Gellifaelog, Dowlais

Mae'r ddau safle ar agor rhwng 9.30yb a 4.30yp dros gyfnod y Nadolig, heblaw ar 25 a 26 o Ragfyr a'r 1 o Ionawr 2020.

Cofiwch:

- Mae'n rhaid i bob gwastraff gael ei wahanu a'i osod yn y cynhwysydd cywir.
- Sicrhewch fod unrhyw becynnau wedi cael eu tynnu oddi ar gardfwrdd cyn i chi eu gosod yn y sgip cywir.
- Bydd angen i fagiâu sy'n cynnwys gwastraff cymysg gael eu didoli gartref cyn i chi ddod i'r safle. Byddwch yn cael eich cyfeirio at orsafoedd didoli sydd ar gael ar y safleoedd er mwyn i chi wahanu deunyddiau cymysg.
- Sicrhewch fod cardfwrdd wedi ei wastadau cyn i chi fynd ag ef i'r safle.
- Gofynnwch i aelod o'r staff os nad ydych yn siŵr pa sgip i'w ddefnyddio ar gyfer eich deunyddiau.

### Cyngor da!

Lluniwch restr cyn i chi fynd i siopa a chynlluniwch rysetiau er mwyn osgoi gwastraff ac arbed arian yn ogystal!



### TREFNIADAU CASGLU GWASTRAFF / AILGYLCHU GYFNOD GWYLIAU 'R NADOLIG A'R FLWYDDYN NEWYDD

#### DIWRNOD CASGLIAD

#### ARFEROL:

Dydd Llun 23 Rhagfyr  
Dydd Mawrth 24 Rhagfyr  
Dydd Mercher 25 Rhagfyr  
Dydd Iau 26 Rhagfyr  
Dydd Gwener 27 Rhagfyr  
Dydd Llun 30 Rhagfyr  
Dydd Mawrth 31 Rhagfyr  
Dydd Mercher 1 Ionawr  
Dydd Iau 2 Ionawr  
Dydd Gwener 3 Ionawr

#### YN AWR YN CAEL EU

#### CASGLU:

- Diwrnod Arferol  
- Diwrnod Arferol  
- Dydd Gwener 27 Rhagfyr  
- Dydd Sadwrn 28 Rhagfyr  
- Dydd Sul 29 Rhagfyr  
- Diwrnod Arferol  
- Diwrnod Arferol  
- Dydd Iau 2 Ionawr  
- Dydd Gwener 3 Ionawr  
- Dydd Sadwrn 4 Ionawr

Er mwyn sicrhau llif cyson o draffig drwy safle Dowlais ac i wella ymweliad y cwsmer, mae'n rhaid i bob cerbyd dynnu i mewn i'r lôn dde er mwyn dyddodi deunyddiau. Mae parcio yn y lôn ar y chwith yn tarfu ar y llif traffig ac yn creu problem iechyd a diogelwch i ddefnyddwyr y safle.



## Ydych chi'n gwneud fel y Jonesiaid?

Mae prosiect Gwneud Fel Y Jonesiaid yn targedu lleiafrif bach o bobl sy'n ailgylchu ychydig iawn neu nad ydynt yn ailgylchu o gwbl. Gall cartrefi nad ydynt yn dechrau ailgylchu wynebu dirwy o £100.

Dechreuodd yr ymgyrch ym mis Medi 2019 a bydd yn parhau i mewn i 2020.

Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru leihau faint o wastraff

sy'n cael ei anfon i'w waredu ac ailgylchu 64% o'u gwastraff yn 2019/20. Bydd methu â chynraedd

y targed hwn yn arwain at gosbau ariannol.

**Mae eich ailgylchu yn gwneud gwahaniaeth MAWR ym Merthyr Tudful – diolch!**

Merthyr Tudful yn ailgylchu  
Merthyr Tydfil recycles



## Merthyr Tudful yn rhif 1 yn y UK ar Fynegai Ailgylchu Carbon Eunomia

Rydym wrth ein bodd o fod wedi ein gosod yn rheng #1 yn y UK ar Fynegai Ailgylchu Carbon Eunomia!

Mae'r Mynegai'n dangos pa weithgareddau ailgylchu gan awdurdodau lleol sy'n darparu'r buddion carbon mwyaf; gan leihau'r ôl troed carbon yn y pen draw.

Hoffem ddiolch i'n holl breswylwyr

a gymerodd ran yn ein casgliadau ailgylchu wythnosol, yn ogystal â'n partneriaid WRAP, a ddarparodd gefnogaeth ariannol a thechnegol i ni.



### Trwyddedau fan nawr ar gael ar-lein!

Gallwch nawr wneud cais am drwyddedau ar gyfer mynd â deunyddiau i'r Canolfannau Gwastraff Cartref ac Ailgylchu mewn fan neu trelar ar-lein yn [merthyr.gov.uk/do-it-online/request-or-apply/](http://merthyr.gov.uk/do-it-online/request-or-apply/)

Mae angen prawf preswylwyr wrth archebu trwydded ar-lein.

Gallwch barhau i gael trwyddedau yn y Ganolfan Ddinesig yn ystod oriau agor.





## Ystafell Synhwyrdd wedi'i agor gan Syr Stanley Thomas

Ar 24 o Hydref 2019, agorodd Syr Stanley Thomas Ystafell Synhwyrdd Newydd yn Nhŷ Dysgu Dowlais; uned sy'n anelu at gefnogi disgyblion sydd â phroblemau ymddygiadol heriol. Cyfranodd Syr Stanley £10,000 ym mis Hydref 2018 i sefydlu'r Ystafell Synhwyrdd ac i brynu deunyddiau celf, gwyddoniaeth, mathemateg a TG. Dywedodd Syr Stanley fod yr arian yn cael ei gyflwyno gan yr Ymddiriedolaeth elusennol a sefydlwyd gan ei dad, Syr Stanley yr Hynaf, i roi yn ôl i'r gymuned - yn enwedig plant a phobl mewn angen; "Dywedodd fy nhad bob amser ei fod am i blant Merthyr Tudful gael budd ar ôl iddo farw, ac ei fod am i'r tri phlentyn ofalu am yr Ymddiriedolaeth i sicrhau

eu bod yn gwneud hynny.

Ychwanegodd Syr Stanley: "Y dref hon a faethodd fy nheulu ac rydym am roi yn ôl iddo, ac rwyf wrth fy modd bod cyfleuster ychwanegol i gael ym Merthyr Tudful."

Dywedodd Gail Meade, Pennaeth Ty Dysgu: "Mae'r Ystafell Synhwyrdd yn ychwanegiad anhygoel i'n darpariaeth as mae wedi bod yn gwbl amhrisiadwy wrth helu ein plant a gwella eu lles. Ni allwn gredu ein lwc... mae Syr Stanley yn hael iawn!"

Dechreuodd gwaith ar yr ystafell y blwyddyn academaidd llynedd, ac mae wedi cael ei defnyddio gan y ddisgyblion ers Mid Medi.



Sarah Bowen, Syr Stanley a Gail Meade yn yr Ystafell Synhwyrdd

## Dysgu am adeiladu fel chwarae plant i ddisgyblion

Mae disgyblion mewn dwy ysgol ym Merthyr Tudful yn dysgu am fyd gwaith gyda help peiriannau adeiladu bach a roddwyd iddynt gan dîm adeiladu'r orsaf fysiau newydd. Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair ac Ysgol Gynradd Caedraw, sydd union gyferbyn â safle'r orsaf newydd, wedi derbyn micro gloddwyr a thryciau tipio oddi wrth y prif adeiladwr, Morgan Sindall.

Aeth y plant ati ar unwaith i roi cynnig ar y 'cerbydau' o dan gyfarwyddyd y Rheolwr Prosiect Ross Williams, Arweinydd y Cyngor Bwrdeistref y Cyngorydd Kevin O'Neill a'r Aelod Cabinet Dros Adfywio a Thai y Cyngorydd Geraint Thomas.

"Rydym yn deall fod plant yn y dosbarthiadau iau yn dysgu drwy chwarae, ac roeddem am wneud rhywbeth sy'n cefnogi hyn ac yn cysylltu â'n prosiect," dywedodd Ross.

"Mae'r peiriannau tegan yn bennaf ar gyfer hwyl, ond mae eu swyddogaeth hefyd yn un ddefnyddiol addysgiadol wrth gyflwyno'r disgyblion i fyd adeiladu. Roedd yn syndod fod rhai ohonynt eisoes yn gwybod y gair 'digger' - er mai dim ond plant tair a phedair oed ydyn nhw!"

- Mae gorsaf fysiau newydd



Ross Williams gyda ddisgyblion o Ysgol Gynradd Caedraw

Merthyr Tudful yn cael ei hadeiladu ar hyn o bryd ar safle cyn orsaf yr heddlu yn Stryd yr Alarch, a disgwylir iddi gael ei chwblhau yn hydref 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £10m o arian i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol i ariannu'r orsaf, a fydd wedi ei lleoli'n nes at orsaf reilffordd y dref, i gydweddu â'i buddsoddiad sylweddol yn Rhwydwaith Rheilffordd Llinellau Craidd y Cymoedd.



ENNILLWYR! Disgyblion o Ysgol Gynradd Dowlais, yn cynrychioli Namibia

COLLWCH YSGOL.  
COLLWCH ALLAN!  
#Presenoldeb

[merthyr.gov.uk/presenoldeb](http://merthyr.gov.uk/presenoldeb)



## Cwpan Rygbi'r Byd yn dod i Merthyr!

(Dyna Rygbi Tag!)

Ar dydd Gwener y 25ain o Hydref, cymerodd dros 200 o blant o 16 o ysgolion cynradd Merthyr rhan mewn twrnamaint Cwpan Rygbi'r Byd Tag, a drefnwyd gan ddisgyblion o ddosbarth Blwyddyn 6 Pantysgallog.

Roedd pob ysgol yn cynrychioli cenedl wahanol a gystadlodd yng Nghwpan Rygbi'r Byd 2019 yn Japan.

**Ac ni allai hyd yn oed glaw trwm leddfu ysbryd y rhai a gymerodd ran!**

Dywedodd Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Pantysgallog: "Roeddem am roi profiad dysgu dilys i'r disgyblion. Yn yr wythnosau cyn y digwyddiad, ysgrifennodd y disgyblion lythyrau i wahodd ysgolion, cynllunio'r deithlen, casglu nawdd gan fusnesau lleol ac archebu crysau-t / medalau i'r holl gyfranogwyr. Hefyd, fe wnaethant i gyd gyflawni rolau pwysig, bywyd go iawn ar y diwrnod, a helpodd y digwyddiad i redeg yn llwyddiannus. Roeddwn yn hynod falch o ymdrechion pawb a gymerodd ran!"

Namibia (Ysgol Gynradd Dowlais) oedd y Dioddefwyr, gan guro Fiji (Ysgol Gymunedol Abercanaid) yn y Rownd Derfynol. Da iawn i chi gyd!

## DISGYBLION YN DERBYN ADDYSG STEM GAN BEIRIANWYR YR ORSAF FYSIAU

Mae disgyblion o Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair wedi bod yn dysgu am fyd peirianneg, a hynny yn sgil ymweliad gan aelodau o'r tîm sy'n adeiladu'r orsaf fysiau newydd.

Cafodd disgyblion o'r ysgol, sydd yn gyferbyn â safle'r orsaf fysiau newydd, gyfle i archwilio offer sy'n cael eu defnyddio ar safleoedd adeiladu.

Roedd yr ymweliad yn rhan o astudiaethau STEM blynyddoedd 3 a 4 (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) a chawsant gyfle i ddefnyddio laser troi, Mesurydd Pellter Electronig (MPE) ac offer peiranyddol eraill.

Roedd dau o gyflogai'r prif gontractwr, Morgan Sindal sef Greg Jones a Ross Williams wrth law i ddangos i'r hanner cant a rhagor o blant sut mae eu pecyn tîrferus yn gweithio a'u hannog i 'roi cynnig arni.'

Dywedodd Sarah Thomas, Arweinydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Ysgol: "Cafodd y plant amser gwych yn archwilio gwahanol roliau, defnyddio offer a defnyddio sgiliau sy'n

gysylltiedig â STEM mewn cyd-destun bywyd bob dydd."







## Rhaglen brentisiaeth Merthyr Tudful yn rhoi hwb i ddiwydiant lleol

Mae pobl ifanc ym Merthyr Tudful yn cynorthwyo i roi hwb i'r diwydiant gweithgynhyrchu a pheirianyddol lleol fel rhan o fenter prentisiaeth cyflogaeth lwyddiannus.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae Rhaglen Prentisiaeth a Rennir Aspire a ariannir gan Lywodraeth Cymru wedi lleoli dros 30 o bobl ifanc â

chyflogwyr gwadd wrth iddynt astudio yng Ngholeg Merthyr Tudful, Coleg Y Cymoedd a Choleg Caerdydd a'r Fro.

Mae Aspire yn brosiect partneriaeth lle y ca prentisiaid yn cael eu cyflogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, eu hyfforddi gan y colegau a Hyfforddiant Tudful a'u lleoli â chwmni lleol am ddwy neu dair blynedd, yn ddibynol ar hyd eu cwrs prentisiaeth.

Anogir hwy i fynd o gyflogwr i

gyflogwr yn y sector gweithgynhyrchu a pheirianyddol uwch er mwyn llenwi unrhyw fylchau mewn sgiliau sy'n gysylltiedig â'u llwybrau dysgu. Maent yn cael eu talu'n uwch na lleiafswm cyflog prentisiaid. Mae hefyd rhai manteision ariannol i gyflogwyr fod yn rhan o'r rhaglen.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr Aspire fod rhwng 16 a 24 mlwydd oed; feddu ar bump TGAU, graddau A-C gan gynnwys pynciau STEM a lefel A mewn pynciau STEM - yn enwedig mathemateg a gwyddoniaeth a naill ai bod yn dechrau ar Gymhwyster Galwedigaethol, fod wedi cwblhau Rhaglen Beirianyddol Uwch, Llwybr i Brentisiaeth neu wedi cwblhau Cymhwyster Galwedigaethol yn y coleg.

• Os ydych chi'n rhedeg cwmni gweithgynhyrchu/peirianyddol ym Merthyr Tudful ac yr hoffech ddysgu rhagor am y rhaglen, cysylltwch â Jared Green ar 01685 725309, e-bost [jared.green@merthyr.gov.uk](mailto:jared.green@merthyr.gov.uk)



## Y GYMUNED YN HELPU CYNLLUN CYFARTHFA

Mae sesiynau 'casglu straeon' sy'n cael eu cynnal gan y tîm o benseiri sy'n cynllunio Cynllun Cyfarthfa wedi sbarduno grwpiau lleol ac unigolion i rannu eu hatgofion a'u gobeithion ar gyfer datblygiad parhaus yr ardal.

Cafodd digwyddiadau'r ymgynghoriad cyhoeddus eu cynnal yn REDHOUSE Cymru a Chastell Cyfarthfa ym mis Hydref ac roedd cynrychiolwyr o sefydliadau gan gynnwys Cymdeithas Naturiaethwyr Merthyr Tudful a'r Ardal, Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr Tudful, Cymdeithas Bysgota Merthyr Tudful, y stiwdio leol – ARRT, cynghorwyr o'r fwrdeistref sirol ac

aelodau o'r gymuned yn bresennol.

"Mae'r tîm yn parhau i ddysgu gan y cyhoedd ym Merthyr Tudful sydd wedi datgelu nifer o straeon cyffrous a safbwyntiau ar ardaloedd Merthyr a Chyfarthfa," meddai Jonathan Shaw o Gwmni Penseiri Ian Ritchie (iRAL).

"Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rheini a ddaeth ac a gyfranodd a byddwn yn parhau i ymgysylltu â chymaint o bobl a grwpiau o'r dref â phosib. Bydd Cynllun Cyfarthfa yn cael ei seilio ar feddyliau, safbwyntiau a syniadau'r cyhoedd ym Merthyr."




## Canllaw i Ymwelwyr

Rydym yn gobeithio y byddwch yn hoffi ein canllaw newydd i ymwelwyr!

Un o'n hoff ddarnau yw'r dyfyniad gan y seren wych o Y Gwyll – Hinterland Richard Harrington ei hun.

Rhowch wybod i'ch teulu a'ch ffrindiau... yn well fyth, anfonwch gopi atyn nhw!

Gallwch ei godi'n lleol neu ei lawrlwytho o: [visitmerthyr.co.uk/cy/about-merthyr/request-a-visitor-guide/](http://visitmerthyr.co.uk/cy/about-merthyr/request-a-visitor-guide/)



## Cynllun Yn y Cyfamser yn dod â bwydydd wnaed o blanhigion a dillad cyfandirol i'r dref



Mae'r sawl sy'n frwd dros fwydydd wnaed o blanhigion ac yn hoffi ffasiwn am gael eu plesio yn dilyn agoriad y busnesau diweddaraf i gael cefnogaeth gan gynllun 'Yn y Cyfamser' Merthyr Tudful.

Canolfan Siopa Santes Tudful yw'r lleoliad ar gyfer y ddwy fenter newydd, sef siop ddillad ac oriel gelf – a siop a chaffi cyntaf y fwrdeistref sirol i werthu bwydydd wnaed o blanhigion a di-lwten.

Mae uned newydd ei ailwampio sy'n cartrefu Plantbased Natural Foods i fyny'r grisau yn y farchnad dan do ac yn cael ei rhedeg gan gwpl lleol; Mark Evan Oakley a Natalia De Celis. Mae Mark, 41, sydd wedi bod yn dioddef o broblemau iechyd meddwl, yn dweud ei fod yn hysbyseb ar ddwy goes i'r ffordd hon o fyw.

"Rwyf wedi cael sawl arhosiad yn yr ysbyty," dywed. "Y tro ddiwethaf, des i allan o'r ysbyty ron i'n teimlo'n ofnadwy, a dechreuais ymchwilio i ddewisiadau ffordd o fyw ac yn raddol cyflwynais fwydydd a wnaed o blanhigion i fy niet."

Gwaredodd siwgr, bwydydd wedi eu prosesu a chaffin, dechreuodd seiclo gan gwlhau taith nodedig 100m a cholodd 6 stôn o bwysau.

Darganfyddodd Mark gynllun Yn y Cyfamser y Cyngor, sef partneriaeth

i wella golwg canol y dref drwy wneud defnydd o adeiladau gwag unwaith yn rhagor. Helpodd Mark i lunio'r cynllun busnes a dod o hyd i adeilad â rhent gostyngedig.

Lawr grisau yn y ganolfan siopa yn Llwybr Newydd y Farchnad, mae Siop Ddillad ac Oriel Gelf Paula, sef syniad y cyn berchennog gwesty yng Nghaerdydd, Andrew Owen a Gary Bailey, sydd â thros 30 mlynedd o brofiad mewn manwerthu.

Ar ôl iddynt agor eu siop gyntaf gyda'i gilydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, symudodd y partneriaid ymlaen at Ferthyr Tudful, gyda Gary – a oedd yn rheolwr rhanbarthol New Look yng Nghymru a'r De-Orllewin – ac Andrew yn gyfarwyddwr i'r siop, a chwaer yng nghyfraith Andrew, Paula Owen o Dre Harris, y rheolwr.

Mae stoc Paula's yn cynnwys amrywiaeth eang o ddillad o ansawdd da i fenywod o'r Eidal a Ffrainc. Mae yno hefyd esgidiau, gemwaith, sgarffiau cashmere ac oriel gelf yn gwerthu peintiadau a phrintiau cyfoes.

• Os hoffech gael cefnogaeth oddi wrth gynllun Yn y Cyfamser, cysylltwch â Chanolfan Menter Merthyr Tudful ar 01685 727509.





**Agorwch eich cartref i ddatgloi eu dyfodol**  
Dewch yn rhiant maeth ar ran Merthyr Tudful.

**Open your home to unlock their future**  
Become a foster carer for Merthyr Tydfil.




01443 425007  
[www.fostercwmtaf.co.uk](http://www.fostercwmtaf.co.uk)  
MerthyrFostering (hoffwch ein tudalen heddiw)  
(like our page today)





## DYFARNIAD O DROS £1½M I ARDAL DALGYLCH TAF BARGOED



Bydd prosiect gwerth hanner miliwn o bunnoedd i ddiogelu llynnoedd yn un o fannau gwyrdd mwyaf darluniadol Merthyr Tudful hefyd yn

gweld tîrffeddiannwyr lleol, gwrengod, preswylwyr ac ysgolion yn ymgymryd â'r rôl o fod yn 'warcheidwaid cymunedol'.

Bydd 140 hectar Parc Taf Bargoed yn destun rhaglen lanhau yn dilyn grant o £417,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi'i ariannu'n gyfatebol â £60,000

oddi wrth y Cyngor Bwrdeistref Sirol a £30,000 o Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae gan y parc, a grëwyd ar ôl adfer tri phwll glo segur, 3.6 hectar o lynnoedd sy'n denu amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Ond ceir problemau ynghylch mwynau o'i orffennol diwydiannol sy'n achosi llygredd, llaid a chroniad o waddod yn ogystal ag ymddygiad grwth gymdeithasol fel tipio anghyfreithlon.

Daw'r wobwr gan Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 Cynllun Rheoli Cynaliadwy, a gaiff ei ariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop dros Ddatblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, tuag at gyfanswm costau'r prosiect sef £507,287.

Gwnaeth y Cyngor hefyd gymeradwyo penodiad at swydd am dair blynedd i weithredu a rheoli 'Prosiect Adfer Dalgylch Taf Bargoed' gan ymgysylltu â'r gymuned a chyflawni gweithgareddau cyfathrebu.

Bydd y gwaith yn cynnwys darparu

ffensiio newydd, plannu coed, adfer glannau'r afon a diogelu rhag erydiad, ac ailgysylltu cynefinoedd i adeiladu prosesau gwydn i mewn i fioamrywiaeth ac ecosystemau'r ardal.

Mae'r prosiect yn gynllun cydweithredol sydd hefyd yn cynnwys cyfranogiad Cyfoeth Naturiol Cymru, Afonydd De Cymru, Cyfeillion Parc Taf Bargoed, Partneriaeth Bioamrywiaeth Merthyr Tudful, Merthyr (De Cymru) Cyf, Cymdeithas Gwrengod Gelligaer a Merthyr, Clwb Canŵ Aberfan, Cymdeithas Pysgota Taf Bargoed, Ymddiriedolaeth Datblygu Taf Bargoed, Prifysgol Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Dyweddodd Pennaeth Adfywio'r Cyngor, Chris Long: "Prosiect cymunedol yw hwn a fydd yn gweithio i ymgysylltu tîrffeddiannwyr, gwrengod, preswylwyr lleol ac ysgolion lleol â dalgylch afon a dysgu am bwysigrwydd afonydd iach a'r fioamrywiaeth oddi fewn iddynt."

## Bydd £700,000 y Parc Rhanbarthol yn trawsffurfio Canolfan Cyfarthfa

Bydd cyfanswm o £700,000 a ddyfarnwyd i Barc Cyfarthfa fel rhan o gynlluniau 'Pyrrh Darganfod,' Parc Rhanbarthol y Cymoedd, Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwell mynediad ac oriau agor i'r ganolfan, caffi gwasanaeth llawn a gwagle cyfarfod cymunedol, toiledau newydd a chyfleusterau newid i'r Pad Sblasio.

Nod Adroddiad Crwsibl Cyfarthfa yw sefydlu'r parc a'r ardal gyfagos yn gyrchfan leol, genedlaethol a rhyngwladol ar gyfer ymwelwyr ac felly, disgrifiwyd yr angen i ailddatblygu'r ganolfan fel 'hanfodol' gan Chris Long, Pennaeth Adfywio a Thai'r Cyngor.

"Gallai cyllid y 'Pyrrh Darganfod' ddim bod yn fwy amserol wrth i ni ddechrau gweithio ar ein cynlluniau i drawsffurfio ardal Cyfarthfa yn

ganolfan dreftadaeth o bwysigrwydd rhyngwladol," dywedodd.

"Mae amcanion Prosiect Parc Rhanbarthol y Cymoedd i ddefnyddio treftadaeth naturiol a ddiwyllianol yr ardal er mwyn creu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn cydgysylltu'n berffaith â'n gweledigaeth ni o'r hyn y bydd Cynllun Cyfarthfa yn ei gyflawni."

Pan gafodd y Ganolfan ei hadeiladu 10 mlynedd yn ôl, y cynllun gwreiddiol oedd creu gwagle ar gyfer defnydd y gymuned. Mae mynediad yn wael ac mae'r cyfleusterau arlwygo'n

gyfyngedig.

Bydd yr ailddatblygiad yn sicrhau fod gwell mynediad ac y bydd y cyfleusterau ar gael trwy gydol y flwyddyn. Bydd y prosiect yn creu caffi newydd â chegin gyflawn, lle ar gyfer paratoi bwyd, storio, cownter ac ardaloedd eistedd.

Bydd cyfleoedd eraill a fydd yn cael eu creu'n cynnwys gwagle ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, arlwygo ar gyfer digwyddiadau, partion plant, darpariaeth hamperi picnic ac arlwygo ar glyd i ardaloedd gwasanaeth y parc fel y llyn a Chae'r Pandy.

Mae creu cyfleusterau toiledau a newid newydd, gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer yr anabl yn y Pad Sblasio'n flaenoriaeth, nid yn unig ar gyfer y tymor brig yn yr haf ond hefyd ar gyfer teuluoedd lleol ac ymwelwyr a fydd yn mynychu digwyddiadau proffil uchel yn y parc, trwy gydol y flwyddyn.

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful er mwyn cyflawni'r prosiect.

## Map Rhyngweithiol sy'n nodi holl atyniadau i ymwelwyr

Bydd ymwelwyr â Merthyr Tudful sydd am ddod i adnabod y fwrdeistref sirol yn well yn gallu nodi'n union ble mae angen iddyn nhw fynd drwy ddefnyddio gwefan â map rhyngweithiol.

Mae Darganfyddwr Lleoliad Croeso Merthyr a luniwyd gan Dîm Rheoli Cyrchfan y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn galluogi defnyddwyr i ddod o hyd i bopeth, o lefydd i aros ynddynt ac atyniadau i dwristiaid i ddewisiadau am fwyd a diod, siopau, llwybrau a hyd yn oed gwaith celf gyhoeddus. Mae dros 230 o bethau wedi eu rhestru ar y wefan, gan gynnwys

llety yn amrywio o Wely a Brecwast pedwar seren Croeso Cymru i wersylla, glampio a thai bync; atyniadau i ymwelwyr fel canolfannau gweithgareddau awyr agored ac adeiladau treftadaeth rhestredig; tai bwyta am giniawa da a phrydau parod; marchnadoedd dan do ac awyr agored; llynnoedd, parciau a llwybrau cerdded.

"Mae'r map yn un o nifer o arfau marchnata twristiaeth a lansiwyd gan y Cyngor i sicrhau fod ymwelwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud y gorau o bob ymweliad yma," dywedodd

Cydllynydd Rheoli Cyrchfan, Lyndsey Handley.

"Rydym yn falch iawn â chynnwys y map hyd yma, ond, yn anochel fe fydd yna rai pethau y byddwn wedi eu methu," ychwanegodd y Cynghorydd Thomas. "System mapio byw yw hi a fydd yn esblygu'n barhaus i adlewyrchu newidiadau yn y diwydiant."

"Byddem wrth ein bodd o glywed gan unrhyw un sydd â gwybodaeth neu leoedd i'w hychwanegu – a byddem yn arbennig o falch o gael unrhyw ddelweddau newydd er mwyn ei wella ymhellach."

Mae'r map ar wefan Croeso Merthyr ac ar gael yma [visitmerthyr.co.uk/map-page](http://visitmerthyr.co.uk/map-page)

## Stori llwyddiant twristiaeth £100m Merthyr Tudful yn llamu yn ei blaen

Mae stori llwyddiant twristiaeth Merthyr Tudful yn llamu yn ei blaen, gyda bod y sector wedi cael effaith gwerth £100m ar yr economi leol yn 2018 – sef cynnydd o bron i £30m ers y flwyddyn flaenorol, clywodd cynhadledd flynyddol 'Diwrnod Cyrchfan' y Cyngor.


Roedd yr esgyniad o 35.4% yn sgil cynnydd o 41% yn y nifer o ymwelwyr blynyddol o 1.27m i 1.79m a'r nifer o cyfwerth swyddi llawn amser a gefnogwyd gan dwristiaeth i fyny 31% o 917 i 1,200.

Roedd y cynnydd yn y nifer o ymwelwyr dydd yn rhannol oherwydd esgyniad mawr yn y niferoedd a ymwelodd â'r 17 o atyniadau i ymwelwyr ledled y fwrdeistref sirol, ynghyd â 'ffactorau dylanwadol' yn cynnwys agor siop Trago Merthyr. Mae nifer o ddyddiau ag ymwelwyr yn aros noson i fyny gan 13.6% hefyd. Roedd hyn

o ganlyniad i gynydd mewn stoc gwely, yn arbennig yn y sector heb wasanaeth – sef llety hostel, carafanau a gwersylla a 104 yn ychwanegol o wlaŵ yng Nghanolfan Gopa Rock UK ac ymddangosiad o lawer o lefydd Airbnb.

Wrth gyflwyno'r canfyddiadau, dywedodd y Prif Weithredwr Interim Ellis Cooper wrth y gynhadledd: "Mae sawl cynllun a phrosiect cyffrous ar y gweill ar gyfer Merthyr Tudful gormod i'w henwi i gyd - ond o ran y canlynol sydd eisoes yn dwyn ffrwyth, ceir ciplun yn unig o'r holl waith da a fydd yn digwydd."

Cafwyd amrywiaeth eang o siaradwyr yng Nghanolfan Fusnes Orbit yn cynnwys arbenigwyr ym maes twristiaeth, pensaernïaeth ac adeiladu, ynghyd ag entrepreneuriaid yn darparu gweithgareddau antur, llety, siopa, ciniawa ac adloniant.







## Miloedd i elwa o arian Ffos-y-fran ar gyfer prosiectau chwaraeon

Mae dau brosiect chwaraeon o Ferthyr Tudful am dderbyn £420,000 a ddyfarnwyd i wella cyfleusterau a fydd o fudd i filoedd o bobl ledled y fwrdeistref sirol.

Bydd Clwb Rygbi Merthyr ac Ymddiriedolaeth Cymunedol Ardal Treharis (YCAT) yn derbyn yr arian oddi wrth Gynllun Grantiau Mawr Ffos-y-fran. Bydd y clwb rygbi yn ei dderbyn i adeiladu hyb cymunedol ym maes chwarae'r Wern a YCAT yn ei dderbyn i uwchraddio llifoleuadau ym maes chwarae pêl-droed Parc Taf Bargoed.

Ailgam prosiect NewShoots:Grassroots Clwb Rygbi Merthyr yw'r hyb cymunedol,

a bydd yn darparu gwagale nid yn unig i rygbi ond i weithgareddau a mentrau lleol hefyd gyda lluo o sefydliadau eraill yn barod i'w ddefnyddio.

Dywed Clwb Rygbi Merthyr y bydd ei brif grŵp targed yn parhau i gynnwys dynion a menywod ifanc, ond gan gynyddu'r ffocws ar fenywod a'r uchelgais i ail-greu tîm menywod. Y mae hefyd yn archwilio i gyflwyno rygbi byddar, rygbi Unedig a rygbi cadair olwyn.

Bydd y prosiect yn derbyn £400,000 tuag at gyfanswm y costau o £800,000, a fydd hefyd yn cynnwys gosod wyneb newydd ar y maes parcio a gwella'r llifoleuadau.

Yn Nhreharis bydd y prosiect yno'n derbyn £20,000 tuag at ddarparu llifoleuadau ar y maes chwarae ym Mharc Taf Bargoed. Mae'r cyfleuster gwerth £500,000, a gafodd grant arall Ffos-y-fran o fwy na £200,000 wedi ei ddyfarnu'n flaenorol iddo, yn agos at ei gwblhau ac mae'n cynnwys stand gwyllo, ystafelloedd newid a chaffi.

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn cynnig pêl-droed i bron i 200 o fechgyn a merched ifanc ac mae hefyd yn cefnogi tîm cwbl ddwyieithog a hyfforddwy. Ceir cynlluniau i annog rhagor o ferched i chwarae drwy ymagweddau newydd fel 'pêl-guriad', sy'n cyfuno dawns,

cerddoriaeth a sgiliau pêl-droed.

Cafodd Cynllun Grantiau Cymunedol Ffos-y-fran ei sefydlu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn cydweithrediad â Merthyr (De Cymru)

Cyfyngedig, sy'n rhoi £1 am bob tunnel o lo a werthir o gynllun adennill tir Ffos-y-fran. Cafodd mwy na £8m ei ddyfarnu i amrywiaeth eang o grwpiau ac achosion ers i'r safle agor yn 2007.



## Newidiadau i nofio am ddim

Mae'r nifer o sesiynau nofio am ddim i bobl sy'n hŷn na 60 a phobl ifanc sy'n 16 ac yn iau ym Merthyr Tudful wedi'i leihau ers y cyntaf o Dachwedd oherwydd i Lywodraeth Cymru haneru swm yr arian ar eu cyfer.

O ganlyniad i ganfyddiad adolygiad Cymru-eang nad yw'r fenter genedlaethol nofio am ddim yn gost effeithiol, o 1 Tachwedd, bydd gan bobl dros 60 yr hawl am ddwy sesiwn am ddim yr wythnos yn unig, a

bydd y rhai o dan 16 yn eu cael dros benwythnosau ac yn ystod gwyliau'r haf yn unig.

Canfu'r adolygiad gan Chwaraeon Cymru fod y nifer o bobl ifanc a oedd yn defnyddio'r cynllun nofio am ddim ledled Cymru wedi disgyn ers chwe blynedd – ac mai dim ond 6% o bobl dros 60 oed oedd yn ei ddefnyddio.

O dan y rhaglen newydd, bydd pobl ifanc iau na 16 yn cael:

- un awr am ddim o sblash ddydd Sadwrn yng Nghanolfan Hamdden

Merthyr Tudful

- un awr am ddim o sblash ddydd Sul yng Nghanolfan Gymunedol Aberfan ac Ynys Owen

Bydd pobl sy'n 60 ac yn hŷn yn cael:

- un awr am ddim o sblash ddydd Mawrth ac un awr am ddim o weithgaredd strwythuredig ddydd Iau yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful
- un awr am ddim o sblashddydd Mercher ac un awr am ddim o strwythuredig ddydd Llun yng Nghanolfan Gymunedol



**GWYBOD BETH YDYCH CHI'N MYND MEWN IDDO!**

**KNOW WHAT YOU'RE GETTING IN TO!**

*Ydych chi'n defnyddio tacsï? A yw'n drwyddedig? Ydych chi'n gwybod beth yw'r risgiau?*

**Gwnewch yn siŵr eich bod dim ond yn defnyddio tacsï trwyddedig!**

Rhaid i gerbydau sydd wedi'u trwyddedu gan CBS Merthyr Tudful arddangos yr arwyddion a'r sticeri drws hyn:

Gallai defnyddio cerbydau heb drwydded eich rhoi mewn perygl! Mae gynyddu a cherbydau trwyddedig yn cael gwiriadau niferus gan y Cyngor i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

I adrodd am gerbyd heb drwydded neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Drwyddedu - [trwyddedu@merthyr.gov.uk](mailto:trwyddedu@merthyr.gov.uk) neu 01685 725000.

*Do you use a taxi? Is it licensed? Do you know the risks?*

**Make sure you only use a licensed taxi!**

Vehicles licensed by Merthyr Tydfil County Borough Council have to display these signs and door stickers:

Using unlicensed vehicles could put you in danger! Licensed drivers and vehicles undergo numerous checks by the Council to ensure public safety.

To report an unlicensed vehicle or for more information, please contact the Licensing Department - [licensing@merthyr.gov.uk](mailto:licensing@merthyr.gov.uk) or 01685 725000.

## Adnewyddu eich cerdyn bws

## Renew your bus pass



## YDYCH CHI WEDI ADNEWYDDU EICH TOCYN BWS ETO?

Mae'r tocynnau bws cyfredol yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2019.

Mae hyn yn berthnasol i bob tocyn gwyrdd 60 oed a hŷn a thocynnau ar gyfer yr anabl.

Sut i wneud cais am ein tocyn gwyrdd newydd

Gallwch fynd i [tfw.wales/travelcards](http://tfw.wales/travelcards) a dewis "60 a hŷn" neu "Anabl" yna "Adnewyddu hen docyn" ac yna gallwch roi'ch manylion

- Mae ffurflenni cais ar bapur ar gael ym mhrif dderbynfa'r Ganolfan Ddinesig (dylid eu dychwelyd i'r cyfeiriad ar y ffurflen gais) neu drwy

ffonio 0300 303 4240

Os ydych yn cael problemau yn adnewyddu'ch tocyn bws, gallwch ffonio 0300 303 4240.

Mae rhagor o wybodaeth yn ymwneud â thocynnau bws a mentrau eraill Trafnidiaeth Cymru ar gael ar [www.tfw.wales/travelcards](http://www.tfw.wales/travelcards) <<http://www.tfw.wales/travelcards>>

Os ydych eisoes wedi gwneud cais am docyn bws newydd, byddwch yn amyneddgar – o achos maint y tocynnau sy'n cael eu derbyn, maent yn cymryd mwy o amser i'w prosesu.





# Gwybodaeth yn ymwneud â'r tywydd yn ystod y Gaeaf



Gall tywydd gaeafol o eira ac iâ amharu ar wasanaethau, trafniadaeth a'i wneud yn anodd mynd at gymunedau ym Merthyr Tudful.

Mae Adran y Priffyrdd wedi llunio Cynllun Cynnal a Chadw'r Gaeaf Winter Maintenance Plan sy'n amlinellu ymateb Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn ystod tywydd gaeafol, yn enwedig pan fydd y tymheredd yn disgyn ac y bydd eira trwm.

Bwriad y cynllun yw hwyluso a chydlynio cymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gymunedau yn ystod tywydd garw'r gaeaf.

## Sut rydym yn penderfynu pryd i drin y ffyrdd?

Yn ôl rhagolygon y tywydd, gallai'r gaeaf hwn fod yr oeraf ers pum mlynedd. Pan fydd y ffyrdd wedi eu gorchuddio ag eira ac iâ, bydd trigolion, yn naturiol yn gofyn beth fydd yn cael ei wneud er mwyn clirio'r ffyrdd a'r llwybrau.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, fel Awdurdod y Priffyrdd sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth cynnal a chadw yn ystod y gaeaf. Mae hyn yn ein galluogi i gynorthwyo'r cyhoedd sy'n teithio

i ddefnyddio rhwydwaith ffyrdd y Fwrdeistref Sirol yn gymharol ddiogel trwy gydol cyfnodau tywydd garw'r gaeaf. Ein nod yw cynnal ac ail ddechrau'r llif traffig cyn gynted ag y bo modd ar bob llwybr yn ystod y gaeaf ac i sicrhau y gall cerbydau a cherddwyr eu defnyddio'n ddiogel.

Rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth, bydd rhagolygon y tywydd yn cael eu derbyn yn ddyddiol gan ddarparwr Rhagolygon y Tywydd. Maent yn cael eu dadansoddi'n ofalus a bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch pa gamau y dylid eu cymryd ar y diwrnod hwnnw.

Pan na fydd y rhagolwg yn rhoi dynodiad clir o iâ neu eira, gall y Cyngor ddefnyddio nifer o sensorau ffyrdd o amgylch y Fwrdeistref Sirol a all roi'r wybodaeth ddiweddaraf, i'r funud am dymheredd arwyneb y ffordd.

## Pryd i raeanu?

Bydd graeanu fel arfer yn digwydd dros nos pan fydd eira neu rew. Bydd y llwybrau graeanu'n cael eu trin yn rhagofalus a byddant yn cael eu trin unwaith yn rhagor os bydd eira neu iâ yn parhau i fod yn bresennol.

Byddwn yn gweithredu'n rhagofalus os bydd eira'n cael ei ragweld neu os bydd yn rhewi ar ôl

iddi fwrw glaw.

Os bydd lefelau'r eira'n codi, bydd erydr eira'n cael eu defnyddio.

Os ydych yn sylwi fod angen llenwi bin graean, defnyddiwyd ein ffurflen ar-lein i wneud cais am ailgyflenwad.

## Clirio eira o'r ffordd, llwybr neu o lwybr beicio

Gallwch glirio eira ac iâ o balmentydd eich hun. Mae'n annhebygol y byddwch yn cael eich erlyn neu'n cael eich dal yn gyfrifol os fydd rhywun yn cael ei anafu ar lwybr neu balmart os fyddwch wedi eu clirio'n ofalus.

### Sut i glirio eira ac iâ

Pan fyddwch yn clirio eira ac iâ:

- gwnewch hynny'n gynnar yn y dydd – mae'n haws symud eira ffres, rhydd
- peidiwch â defnyddio dŵr – gallai rewi a thro'i'n iâ du
- defnyddiwyd halen os yw hynny'n bosib - bydd yn toddi'r iâ a'r eira ac yn eu rhwystro rhag ail-rewi dros nos (ond peidiwch â defnyddio'r halen o finiau graeanu gan ei fod yn cael ei ddefnyddio i gadw'r ffyrdd yn glir)
- gallwch ddefnyddio lludw a thywod nad oes gennych ddigon o halen – bydd yn gymorth i beidio â gwneud yr arwyneb mor llithrig o dan droed
- cymerwch ragor o sylw wrth glirio grisiau a llwybrau serth – gall ddefnyddio rhagor o halen fod yn gymorth

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei darparu gan yr Adran Drafniadaeth [gov.uk/clear-snow-road-path-cycleway](http://gov.uk/clear-snow-road-path-cycleway)

**Edrych ar ôl eich cymdogion**

Mae pobl hŷn, y rheini sy'n dioddef o gyflyrau iechyd hirdymor, merched beichiog a phlant ifanc mewn mwy o risg yn ystod cyfnodau o dywydd oer. Os ydych yn adnabod neu'n edrych ar ôl rhywun allai fod yn fwy agored i ddioddef yn sgil effeithiau'r tywydd oer, cynorthwyt hwy i gadw'n gynnes ac yn iach.

- Sicrhewch eu bod yn ddigon cynnes, yn enwedig yn y nos.
- Sicrhewch fod ganddynt ddigon o fwyd a meddyginiaethau fel nad oes raid iddynt fynd allan pan fydd y tywydd yn oer iawn.
- Os byddant yn dechrau teimlo'n sâl, hyd yn oed os yw'n beswch neu'n annwyd, peidiwch ag aros i'r salwch waethygu. Gofynnwch am gyngor eich fferyllydd neu ewch i'ch syrjeri doctor teulu lleol.
- Os ydych yn poeni ynghylch person hŷn, cysylltwch ag aelod o'r teulu neu ag Adran Gymdeithasol Gofal Oedolion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 01443 425011.

Am wybodaeth bellach ynghylch sut i gadw'ch tŷ yn gynnes ac i ddiogelu'ch hun rhag anhwylderau cyffredin, canfyddwch sut i gadw'n iach y gaeaf hwn ar wefan y GIG. [www.nhs.uk/staywell/](http://www.nhs.uk/staywell/)

Yn ystod y tywydd oer hwn, gobeithiwn y bydd yr holl gymuned yn cyd-dynnu er mwyn cynorthwyo ei gilydd. Diolch i chi am eich cydweithrediad.

**Casgliadau Ailgylchu a Gwastraff**  
Yn ystod cyfnodau o dywydd garw, byddwn yn parhau i adolygu sefyllfa casgliadau gwastraff ac ailgylchu.

Weithiau, bydd rhaid i gasgliadau gael eu gohrio. Cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i ni ail ddechrau'n casgliadau, byddwn yn parhau â chasgliadau arferol ac yn

ychwanegu rhai eraill yn ogystal.

Byddwch yn amyneddgar. Yn ystod cyfnodau o dywydd garw, weithiau bydd rhaid i ni adleoli'n criwiau er mwyn cynorthwyo â chlirio'r eira.

Gwiriwch wefan y Cyngor ar [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk) a thudalennau Facebook a Twitter am ddiweddariadau cyson ar gasgliadau gwastraff ac ailgylchu yn ystod tywydd garw.

## Ysgolion

Er mwyn cyrchu gwybodaeth am ysgolion sydd ar gau yn ystod tywydd garw, ewch i wefan y cyngor ar [www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk) <<http://www.merthyr.gov.uk>> a dilynwch y ddolen ar gyfer gwybodaeth cau ysgolion.

## Dod o hyd i ragor o wybodaeth:

**Am ragor o wybodaeth a diweddariadau cyson yn ystod misoedd y gaeaf, ewch i wefan y Cyngor neu i safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor:**

Facebook: <http://www.facebook.com/merthyrtydfilcbbc>

Twitter: <https://twitter.com/merthyrCBC>

## Sut i gysylltu â ni yn ystod argyfwng

Rhif ffôn argyfwng y Cyngor, y tu allan i oriau swyddfa yw 01685 385231.

## Trafnidiaeth Gyhoeddus

Am wybodaeth yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus a phroblemau teithio yn ystod tywydd garw, cynghorir chi i gysylltu'n uniongyrchol â'r cwmnïau perthnasol.

- Traveline Cymru
- Gwasanaethau Rheilffordd Transport for Wales
- Stagecoach

# Cadwch yn gynnes, iach a diogel y gaeaf

Winter wrapped up



A guide to keeping warm and well this winter

Gyda'r gaeaf ar ein gwarthau, bydd angen i ni gymryd rhagor o ofal i gadw'n gynnes, iach a diogel ac mae hyn yn oed yn fwy pwysig ar gyfer yr henoed yn ein

plith.

Mae Age UK wedi cynhyrchu pamffledyn gwybodaeth, 'Winter Wrapped Up' sy'n darparu llawer o gyngor defnyddiol am sut i gadw'n iach a chynnes y gaeaf hwn. Er mwyn gweld a lawrlwytho copi, ewch i [ageuk.org.uk](http://ageuk.org.uk)

Gall llawer o bobl deimlo'n fwy unig yn ystod misoedd tywyll y gaeaf ond does dim rhaid i bethau fod felly.

Mae sefydliadau lleol ym Merthyr Tudful sy'n darparu gwasanaethau

Cyfeillio.

Gallwch hefyd ymweld â [ageingwellinwales.com/wl/home](http://ageingwellinwales.com/wl/home) er mwyn cyrchu canllaw o'r enw

'Gwneud Gwahaniaeth' er mwyn eich cynorthwyo i ymdrin ag unigrywdd.

Os ydych chi, aelod o'r teulu neu gymydog yn bryderus ynghylch perthynas neu gymydog oedrannus, cysylltwch â'r Cyngor ar 01685 725000 neu ffoniwch linell gymorth Age Cymru, yn rhad ac am ddim ar 08000 223 444 rhwng Dydd Llun a Dydd Gwener rhwng 9am a 5pm.

Os ydych yn berson hŷn neu eich bod yn gofalu am berson hŷn, cysylltwch â Claire Williams, eich Cydlynnydd Cymunedol Lleol am wybodaeth a chynghor ynghylch gwasanaethau lleol, grwpiau neu weithgareddau. Ffoniwch 01685 354954 neu 07580 869983 neu danfon ebost i [Claire.williams@vamt.net](mailto:Claire.williams@vamt.net)

# Lloches Dros Nos y Gaeaf i ailagor yn y Flwyddyn Newydd

Bydd lloches dros nos y gaeaf y Cyngor yn ailagor ar gyfer 2020 ddydd Gwener 3 Ionawr a bydd yn rhedeg tan ganol mis Mawrth.

Mae staff y lloches yn wirfoddolwyr ac yn aelodau o sefydliadau ffydd a chaiff y dyddiad dechrau eu bennu'n bennaf yn sgil yr anawsterau o recriwtio gwirfoddolwyr dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mae'r grŵp o wirfoddolwyr yn gweini bwyd a diod twym wedi ei goginio gyda'r nos ac amser brecwast drwy Gaffi'r Orsaf Fysiau, gyda grant cymorth oddi wrth Tai Cymoedd Merthyr.

Caiff mynediad ei ddarparu i bobl sy'n cysgu ar y stryd mewn trafodaeth â gwirfoddolwyr a Thim Ateb Tai yr awdurdod. Caiff gwiriadau cefndir eu cyflawni i leddfu unrhyw risgiau i wirfoddolwyr a phreswylwyr eraill yn y lloches.

Bob dydd bydd y lloches ar agor

bydd yn ofynnol cael 9 neu 10 gwirfoddolwr i ofalu am dri shift: 6-10pm, 10pm-6am a 6-8am. Gofynnir i unrhyw un sydd am helpu gysylltu â thim ateb tai y Cyngor ar 01865 725000, e-bost [housing@merthyr.gov.uk](mailto:housing@merthyr.gov.uk)

